

Sut i wneud cwyn i ni:

Gallwch chi **siarad â'ch ymarferydd Cafcass Cymru** a rhoi unrhyw adborth yr hoffech chi ei rannu iddo.

Gallwch chi ein **ffonio ni** ar 0800 4960650 rhwng 9am a 4:30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Gallwch chi **anfon e-bost aton ni**: MyVoiceCafcassCymru@gov.wales.

Gallwch chi **lenwi un o'r ffurflenni adborth** ar ein gwefan: [Adborth, Canmoliaeth a Chwynion](#).



Byddwch chi'n anfon eich adborth atom ni gan ddweud pam rydych chi'n teimlo'n anhapus â Cafcass Cymru.

Byddwn ni'n eich ateb, o fewn un diwrnod gwaith fel arfer, i ddweud ein bod wedi cael eich cwyn.

Bydd rheolwr yn edrych ar eich cwyn.

Bydd y rheolwr yn esbonio sut y bydd yn gweithio gyda chi a beth yw'r camau nesaf. Bydd yn siarad â chi wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy fideo, fel y gallwch chi siarad yn fanylach am y ffordd orau o ddatrys pethau.



Beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n gwneud cwyn?

Yn ein hymateb i chi, byddwch chi'n cael cyfle i roi adborth i ni ar eich profiad o wneud cwyn, er mwyn ein helpu i ddelio â chwynion yn well yn y dyfodol.

Os bydd pethau y gallwn ni eu newid neu'u gwneud yn well o ganlyniad i'ch cwyn, byddwn ni'n siarad â phobl eraill yn Cafcass Cymru am wneud y newidiadau hynny.

Bydd y rheolwr yn ymateb yn ysgrifenedig gan esbonio beth y gwnaethoch chi ei drafod, beth mae wedi'i wneud, a beth fydd yn digwydd nesaf. Byddwn ni'n gwneud hyn cyn gynted â phosibl ac o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl cwrdd â chi neu erbyn dyddiad rydych chi wedi cytuno arno.